LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

# MANIFFESTO MANIFESTO 55

## Adolygiad | Review of 2023-2024



# YR ARCHIF WLEIDYDDOL GYMREIG

Sefydlwyd yr Archif Wleidyddol Gymreig yn 1983 i gydlynu'r gwaith o gasglu tystiolaeth ddogfennol o bob math am wleidyddiaeth Cymru. Cesglir cofnodion a phapurau pleidiau gwleidyddol, gwleidyddion, mudiadau lled-wleidyddol, ymgyrchoedd a charfanau pwyso; taflenni, pamffledi ac effemera printiedig eraill; posteri a ffotograffau; gwefannau a thapiau o raglenni radio a theledu. Ni chyfyngir ei gweithgareddau i un adran o fewn y Llyfrgell.

Yn unol â Pholisi Datblygu Casgliadau Llyfrgell Genedlaethol Cymru, mae'r Archif Wleidyddol Gymreig yn casglu papurau personol gwleidyddion sydd wedi chwarae rhan bwysig ym mywyd y genedl ac unigolion sydd â phroffil uchel oherwydd eu gwaith ymgyrchu ar faterion cenedlaethol neu ryngwladol.

Rydym yn casglu:

- papurau Aelodau Senedd y DU, Aelodau Senedd Cymru, Aelodau Senedd Ewrop ac Arglwyddi os ydynt, er enghraifft, wedi gwasanaethu fel Ysgrifennydd Gwladol, arweinydd plaid wleidyddol, gweinidog, cadeirydd pwyllgor blaenllaw; nid ydym fel arfer yn casglu papurau etholaethol na phapurau aelodau etholedig eraill
- archifau cenedlaethol pleidiau gwleidyddol
- archifau carfanau pwyso cenedlaethol, a grwpiau sy'n ymgyrchu ar faterion gwleidyddol o bwys cenedlaethol
- effemera etholiadol o bob etholaeth yng Nghymru ar gyfer etholiadau a refferenda cenedlaethol.

# THE WELSH POLITICAL ARCHIVE

The Welsh Political Archive was set up in 1983 to co-ordinate the collection of documentary evidence of all kinds about politics in Wales. It collects the records and papers of political parties, politicians, quasi-political organisations, campaigns and pressure groups; leaflets, pamphlets and other printed ephemera; posters and photographs; websites and tapes of radio and television programmes. Its work is not restricted to a specific department within the Library.

In accordance with the National Library of Wales' Collection Development Policy, the Welsh Political Archive collects the personal papers of politicians who have played an important role in the life of the nation and individuals with a high profile for campaigning on national or international issues.

We collect:

- the papers of Members of the UK Parliament, Members of the Senedd, Members of the European Parliament and Lords if they have for example held positions such as Secretary of State, party leader, minister, senior committee chair; we do not usually collect the papers of other elected members or constituency papers
- the national archives of political parties
- archives of national pressure groups and groups which campaign on national issues
- election ephemera from all constituencies in Wales for national elections and referenda.

## STAFF YR ARCHIF WLEIDYDDOL GYMREIG | THE WELSH POLITICAL ARCHIVE STAFF

**Rob Phillips**



Archifydd: Yr Archif Wleidyddol Gymreig | Archivist: The Welsh Political Archive

**Rhys Davies**



Archifydd Cynorthwyol: Yr Archif Wleidyddol Gymreig | Assistant Archivist: The Welsh Political Archive

**Miidong Daloeng**




Swyddog Prosiect Dadgoloneiddio Archifau | Archives Decolonisation Project Officer

# DERBYNIADAU NEWYDD

Mae'r Archif Wleidyddol Gymreig wedi llwyddo i dderbyn nifer o archifau diddorol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

# NEW ACQUISITIONS

The Welsh Political Archive has been successful in acquiring a number of interesting archives during the past year.


*CHECK AGAINST DELIVERY

MG speech for Spring Conference

A strong party

How pleasing it is to see our growing strength in
government in Wales. We have never before b
welcome such a gathering of Welsh Liberal De
Council Leaders. Now we have Rodney Berm
Cardiff, Chris Holley in Swansea, Cheryl Gree
Bridgend, and this week, the Council in Wrex
elected Aled Roberts as their leader. What
in just 12 months – Cardiff, Swansea, Wrex
Bridgend – now all led by the Welsh Libera
You know, of our largest towns and cities
is missing from the list, and we made sig
there last June as well. And we made s
gains in rural areas as well.

Plaid and the long term

Once, less than 100 years ago, Wale
liberalism. Our non-conformist roots
home rule and base in Wales' comm
once more.

Where once we were identified w
now celebrate diversity and the b
establishment.

Looking to the longer term, we
the political firmament who sh
vision which is progressive, b
Plaid Cymru is in retreat as a
rather than party, because i
of Wales, isn't really a part
different factions strugglin
failing to reach a wider ele

No sleep 'til Borth

Speech for Oct 14. 2pm. 30 mins.

Diolch Lembit.

Hoffwn dechrau yn y Gymraeg. [tell translator].

Dwi wrth fy modd bod yma yng Ngheredigion – etholaeth
gyda aelod seneddol Dem Rhydd Cymru – Mark Williams.

Blwyddyn nesaf, gobeithio byddaf yn dweud: etholaeth
gyda aelod Cynulliad. Nid oes gan John Davies y fraint
sypreisio Plaid Cymru, fel wnaeth Mark. Ond dwi'n
hyderys bod John yn gallu ennill.

Mae pobl Ceredigion yn gwybod y gwahaniaith gall aelod
Dem Rhydd ei wneud. Adeiladodd Mark ei enw ac ei
enwogrwydd lleol fel rhywun sy'n gweithio'n galed, ac sy'n

**Lord German Papers**

## MIKE GERMAN

Dau focs bach o ddeunydd yn ymwneud â chyfnod yr Arglwydd German fel Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, fel ag yr oedd ar y pryd, ac fel Dirprwy Brif Weinidog yn y llywodraeth glymblaid rhwng Llafur Cymru a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru rhwng 2000 a 2003. Mae'r deunydd yn cynnwys areithiau, gohebiaeth, papurau yn ymwneud â chytundeb y glymblaid, busnes y llywodraeth a'r Cynulliad.
**Lord German Papers.**


Two small boxes of material relating to Lord German's time as Leader of the Welsh Liberal Democrats in the then National Assembly for Wales and as Deputy First Minister in the coalition government between Welsh Labour and the Welsh Liberal Democrats between 2000 and 2003. The material includes speeches, correspondence, papers relating to the coalition agreement, government and Assembly business.
**Lord German Papers.**



## GLYN MATHIAS

Cyflwynodd cyn-newyddiadurwr y BBC ac ITN, Glyn Mathias, ei bapurau i'r Archif ym mis Ionawr 2024. Mae'r deunydd yn ymwneud â'i yrfa ym maes darlledu a chymdeithas ddinesig ac mae'n cynnwys papurau sy'n ymwneud â'r penderfyniad i ganiatáu darlledu ar y teledu yn Nhŷ'r Arglwyddi a Thŷ'r Cyffredin a phenderfyniad yn ymwneud â'r sylw a roddwyd i Ryfel y Gwlff ar y teledu.
**Glyn Mathias Papers.**

The former BBC and ITN journalist, Glyn Mathias, donated his papers in January 2024. The material relates to his career in broadcasting and civic society and contains papers covering the decision to permit television broadcasting in the House of Lords and the House of Commons and decision relating to television coverage of the Gulf War.
**Glyn Mathias Papers.**


MEMORANDUM

TO: Stewart Purvis

FROM: Glyn Mathias

cc David Mannion
Richard Tait

14th Feb

Re: Political reaction to reports from Baghdad

The War Cabinet discussed broadcast reports from I
minutes this morning. According to Mike Bruns
concerned that the broadcasters weren't getting the
on some items, but it is not the Government's view
not have correspondents in Baghdad. They acknowle
extremely difficult job to do.

In the Commons only two MPs raised it during Busin
Christopher Soames (again) and Dudley Smith.
expressed sympathy with the views expressed by So
representations had been made to the broadcasting au

Privately later he was apparently indicati
representations may be made to the broadcasters.
that other Conservative MPs are also concerned on the
he said that the concern was more about individua
particular, Jeremy Bowen's reporting yesterday and to
believed to be unbalanced.

My view is that this is still low level on the polit
scale.

Glyn Mathias

**Glyn Mathias Papers**

## PLAID CYMRU

Trosglwyddwyd grŵp bach o gofnodion pellach Plaid Cymru i'r Llyfrgell ym mis Awst 2023 gan Owen Roberts, Prif Weithredwr Plaid Cymru. Mae'n cynnwys papurau o gyfarfodydd pwyllgorau amrywiol, rhaglenni cynadleddau blynyddol a chynadleddau'r Gwanwyn, maniffestos, effemera etholiadol a deunydd printiedig.
Ychwanegiad at **Archif Plaid Cymru.**


A small group of further records of Plaid Cymru transferred to the Library in August 2023 by Owen Roberts, Chief Executive of Plaid Cymru. It includes papers of various committee meetings, programmes of the Annual and Spring conferences, manifestos, election ephemera and printed material.
Addition to **Archif Plaid Cymru.**

## GRŴP Y BLAID GEIDWADOL YN Y SENEDD

Cafodd un bocs, sy'n cynnwys cofnodion y Blaid Geidwadol Gymreig yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru rhwng 2011 a 2016, ei adneuo ym mis Awst 2023.
Ychwanegiad at **Welsh Conservative Party National Assembly for Wales Group Archive**.

## SENEDD CONSERVATIVE PARTY GROUP

One box, comprising the minutes of the Welsh Conservatives in the National Assembly for Wales between 2011 and 2016, was deposited in August 2023.
Addition to **Welsh Conservative Party National Assembly for Wales Group Archive**.


16 May

①

My Lords,
There is much in the Gracious Speech on which I would wish to comment. However, I shall reserve myself to two topics amongst today's box of liquorice allsorts.
Firstly unlike the noble Lords, Lord Patten and Lord Myners, and maybe others, I warmly welcome the introduction of legislation to establish an independent adjudicator to ensure supermarkets deal fairly and lawfully with suppliers. // As your Lordships

UK Government
Llywodraeth y DU
Rt Hon Alun Cairns MP
Secretary of State for Wales
Ysgrifennydd Gwladol Cymru
T: 020 7270 0575
E: Correspondence@walesoffice.gsi.gov.uk

Dear David,
25th February 2018
Just a short personal note to thank you for all your help and advice in our international trade ambitions.
Your support in relation to our recent visit was first class in every way. Thank you.
With your agreement, I look forward to continuing to work closely together. I so appreciate your

Lord Rowe-Beddoe Papers

## YR ARGLWYDD DAVID ROWE-BEDDOE

Cyflwynodd yr Arglwyddes Rowe-Beddoe wyth bocs mawr yn cynnwys deunydd ar ddatblygu economaidd, diwylliant, Canolfan Mileniwm Cymru, Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, datganoli a Deddf Cymru 2017, yr amgylchedd a Morglawdd Caerdydd i'r Llyfrgell fel rhodd ym mis Mawrth 2024.
**Lord Rowe-Beddoe Papers.**

## LORD DAVID ROWE-BEDDOE

Eight large archival boxes including material on economic development, culture, Wales Millennium Centre, Royal Welsh College of Music and Drama, devolution and the Wales Act 2017, the environment and the Cardiff Barrage were donated to the Library by Lady Rowe-Beddoe in March 2024.
**Lord Rowe-Beddoe Papers.**

## PLAID LAFUR CYMRU

Derbyniwyd pedwar bocs ym mis Mehefin 2023 i'w hychwanegu at Archif Plaid Lafur Cymru. Mae'r deunydd yn ymwneud â menywod, etholiadau, datganoli, TUC Cymru, Undebau Llafur dros Lafur, y Fforwm Polisi Cenedlaethol, Fforwm Polisi Cymru, cynllunio ar gyfer etholiadau, Pwyllgor Gwaith Cymru, rheolau'r blaid, cynadleddau a maniffestos.
Ychwanegiad at **Labour Party Wales Archive.**

## LABOUR PARTY WALES

Four boxes were received in June 2023 to add to the Labour Party Wales Archive. The material relates to women's issues, elections, devolution, the Wales TUC, Trade Unionists for Labour, the National Policy Forum, the Welsh Policy Forum, elections planning, the Welsh Executive Committee, party rules, conferences and manifestoes.
Addition to **Labour Party Wales Archive.**

## Y BARWN THOMAS O WYDIR

Derbyniwyd grŵp bach o bapurau ychwanegol y gwleidydd Ceidwadol cyntaf i wasanaethu fel Ysgrifennydd Gwladol Cymru fel rhodd gan ei ferch Mrs Jane Clargo ym mis Medi 2023. Maent yn cynnwys deunydd etholiadol pan safodd fel Aelod Seneddol dros etholaeth Conwy yn ystod Etholiadau Cyffredinol 1951–1966; llythyrau a thelegramau, gan gynnwys un gan y Prif Weinidog Edward Heath yn diolch i Peter Thomas wrth iddo ymddiswyddo fel Cadeirydd y Blaid yn 1972; ac effemera yn ymwneud â'r Teulu Brenhinol.
Ychwanegiad at **Lord Thomas of Gwydir Papers.**

## BARON THOMAS OF GWYDIR

A small group of additional papers of the first Conservative Secretary of State for Wales was donated by his daughter Mrs Jane Clargo in September 2023. They include election material when he stood as a Member of Parliament for Conway during the 1951–1966 General Elections; letters and telegrams, including one from the Prime Minister Edward Heath thanking Peter Thomas as he stood down as Party Chairman in 1972; and Royal Family ephemera.
Addition to **Lord Thomas of Gwydir Papers.**

## DILLAD YES CYMRU

Dau o'r ychwanegiadau mwy anarferol i'r casgliadau eleni oedd Crys T a Siwmper Nadolig a gynhyrchwyd gan Yes Cymru fel rhan o'u hymgyrch dros annibyniaeth i Gymru a roddwyd i'r Llyfrgell ym mis Ionawr 2024.
**Casgliad Graffeg 2024P004.**

## YES CYMRU CLOTHING

Two of the more unusual additions to the collections this year were a T Shirt and a Christmas Jumper produced by Yes Cymru as part of their campaign for independence for Wales which were donated to the Library in January 2024.
**Casgliad Graffeg 2024P004.**

## GARETH VAUGHAN JONES

Derbyniwyd llythyr a cherdyn post a anfonwyd at Sarah a William Moses, Cwmllynfell, ynghyd â thoriad papur newydd yn cyfeirio at farwolaeth Gareth Jones a nodyn gan deulu Gareth yn diolch am y gefnogaeth a'r cydymdeimlad i'r Llyfrgell fel rhodd ym mis Medi 2023.
**NLW ex 3099.**


A letter and postcard sent to Sarah and William Moses, Cwmllynfell, along with a newspaper cutting referring to the death of Gareth Jones and a note from Gareth's family noting thanks for the support and condolences, was donated to the Library in September 2023.
**NLW ex 3099.**

## CYFWELIAD GYDA GWYNORO JONES

Cyflwynwyd disg mini yn cynnwys cyfweliad gyda chyn-AS Caerfyrddin Gwynoro Jones, a gynhaliwyd gan Dr Rhys Evans ar gyfer ei fywgraffiad o Gwynfor Evans *Rhag pob Brad*, yn 2005 i'r Llyfrgell ym mis Rhagfyr 2023.
**Archif Sgrin a Sain Llyfrgell Genedlaethol Cymru.**

## INTERVIEW WITH GWYNORO JONES

A minidisc containing an interview with former Carmarthen MP Gwynoro Jones, conducted by Dr Rhys Evans for his biography of Gwynfor Evans *Rhag pob Brad*, in 2005 was donated to the Library in December 2023.
**The National Library of Wales Screen and Sound Archive.**



Jonathan Edwards Papers

## JONATHAN EDWARDS

Derbyniwyd tri bocs bach gan Jonathan Edwards ychydig cyn yr Etholiad Cyffredinol.  Maent yn cynnwys areithiau a dyddiaduron, gohebiaeth a phapurau eraill yn ymwneud â Phlaid Cymru a'i gyfnod fel AS Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr.
**Jonathan Edwards Papers.**

Three small boxes were received from Jonathan Edwards just before the General Election. They contain speeches, diaries, correspondence and other papers relating to Plaid Cymru and his time as MP for Carmarthen East and Dinefwr.
**Jonathan Edwards Papers.**

## ANN CLWYD

Derbyniwyd casgliad o fideos yn cynnwys rhaglenni lle roedd Ann Clwyd yn ymddangos ym mis Gorffennaf 2024.
**Archif Sgrin a Sain Llyfrgell Genedlaethol Cymru.**

A collection of videos containing programmes which featured Ann Clwyd was received in July 2024.
**The National Library of Wales Screen and Sound Archive.**

## TUC CYMRU

Ychwanegwyd un ar ddeg o gyfrolau printiedig at yr archif wedi eu cyhoeddi gan TUC Cymru rhwng 2017 a 2024 a'u derbyn ym mis Chwefror 2024.
Ychwanegiad at **Wales TUC Cymru Archives.**

## WALES TUC

Eleven printed volumes published by Wales TUC Cymru between 2017 and 2024 received in February 2024 were added to the archive.
Addition to **Wales TUC Cymru Archives.**

## DYFODOL CYFANSODDIADOL CYMRU

Rhoddwyd copïau o adroddiadau terfynol y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru gan gynnwys fersiwn Cymraeg a Saesneg o'r adroddiad llawn, y fersiwn hawdd ei ddarllen, fersiwn cyfeillgar i ieuenctid a ffeithluniau i'r Llyfrgell ym mis Ionawr 2024.
**NLW ex 3106.**

## CONSTITUTIONAL FUTURE OF WALES

Copies of the final reports of the Independent Commission on the Constitutional Future of Wales including the Welsh and English version of the full report, the easy-read version, youth friendly version, and infographics were donated to the Library in January 2024.
**NLW ex 3106.**



## UCM CYMRU

Rhoddwyd tua deuddeg bocs o bapurau, posteri a ffotograffau yn ymwneud â gwaith UCM Cymru i'r Llyfrgell ym mis Hydref 2023.
**NUS Wales Archive / Archif UCM Cymru.**

## NUS CYMRU

Approximately twelve boxes of papers, posters and photographs relating to the work of NUS Wales were donated to the Library in October 2023.
**NUS Wales Archive / Archif UCM Cymru.**

## WYNFFORD JAMES

Cafodd papurau Wynfford James yn ymwneud â gweithgareddau Cymdeithas yr Iaith Gymraeg rhwng y 1970au a'r 2000au eu rhoi i'r Llyfrgell ym mis Mai 2023.  Maent yn cynnwys gohebiaeth o'i gyfnod yn y carchar, areithiau a deunydd yn y wasg ynghyd ag adroddiadau a phapurau eraill o'i gyfnod fel Rheolwr Gyfarwyddwr Antur Teifi.
**Papurau Wynfford James.**


The papers of Wynfford James relating to the activities of Cymdeithas yr Iaith Gymraeg between the 1970s and 2000s were donated to the Library in May 2023. They include correspondence from his time in prison, speeches and press coverage along with reports and other papers from his time as the Managing Director of Antur Teifi.
**Papurau Wynfford James.**


## JILL EVANS

Derbyniwyd ychwanegiad pellach i bapurau Jill Evans fel rhodd yn Nhachwedd 2023, a gynhyrchwyd ac a gasglwyd yn bennaf yn ystod ei gwaith fel Aelod Plaid Cymru yn Senedd Ewrop o 1999 i 2020.  Mae'r themâu o fewn yr ychwanegiad sylweddol yn cynnwys lles anifeiliaid, newid hinsawdd, heddwch a'r iaith Gymraeg.  Mae yna ffeiliau'n ymwneud â'r etholiadau Ewropeaidd ac ymweliadau a wnaed i Balesteina ac Israel rhwng 2002 a 2015.
Ychwanegiad at **Jill Evans MEP Papers.**

Jill Evans donated further papers in November 2023, mostly produced and accumulated in the course of her work as a Plaid Cymru Member of the European Parliament from 1999 to 2020. Themes within the substantial addition include animal welfare, climate change, peace and the Welsh language. There are files relating to the European elections and visits made to Palestine and Israel between 2002 and 2015.
Addition to **Jill Evans MEP Papers.**

Jill Evans MEP Papers






Archif Cynulliad Cenedlaethol Cymru / National Assembly for Wales Archive

## ARCHIF CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

Nifer o gyfrolau wedi'u rhwymo â lledr a'u llofnodi gan EM y Frenhines Elizabeth II, Ei Uchelder Brenhinol Dug Caeredin a'i Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru ar y pryd yn ystod eu hymweliadau â Chynulliad Cenedlaethol Cymru rhwng 1999 a 2016 i agor trafodion y Cynulliad yn ffurfiol ac adeilad newydd y Senedd yn ogystal â nodi Jiwbilî Aur Ei Mawrhydi y Frenhines Elizabeth II. Ychwanegiad at **Archif Cynulliad Cenedlaethol Cymru = National Assembly for Wales Archive.**

## NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES ARCHIVE

A number of leather-bound volumes signed by HM Queen Elizabeth II, HRH The Duke of Edinburgh and the then HRH The Prince of Wales on visits to the National Assembly for Wales between 1999 and 2016 to formally open Assembly proceedings and the new Senedd building as well as to mark the Golden Jubilee of HM Queen Elizabeth II. Addition to **Archif Cynulliad Cenedlaethol Cymru = National Assembly for Wales Archive.**

## JEFF CUTHBERT

Ym mis Gorffennaf 2024 rhoddodd Jeff Cuthbert draethawd byr i'r Archif ar ei rôl fel Aelod Cynulliad dros Gaerffili a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent. **NLW Ex3118.**

In July 2024 Jeff Cuthbert donated a short essay on his role as Assembly Member for Caerphilly and Police and Crime Commissioner for Gwent. **NLW Ex3118.**






## CASGLIAD EFFEMERA GWLEIDYDDOL CYMRU


Mae wedi bod yn flwyddyn brysur o ran ychwanegiadau i Gasgliad Effemera Gwleidyddol Cymru diolch i'n rhwydwaith o gefnogwyr sy'n casglu ar ein rhan. Rydym yn ddiolchgar iawn am eich cymorth i gynnal y casgliad unigryw hwn. Rydym wedi ychwanegu ffeiliau am Etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu 2024 (BH/4), Etholiadau Arweinyddiaeth Llafur Cymru (C1/1/10) a'r Etholiad Cyffredinol (BA12).

Rydym hefyd wedi gwneud cipluniau o wefannau ymgeiswyr yn yr Etholiad Cyffredinol a bydd y rhain ar gael i'w gweld yn ystafell ddarllen y Llyfrgell.

## WELSH POLITICAL EPHEMERA COLLECTION

It's been a bumper year for additions to the Welsh Political Ephemera Collection thanks to our network of supporters who collect on our behalf. We're very grateful for your help in maintaining this unique collection. We've added files on the 2024 Police and Crime Commissioner Elections (BH/4), the Welsh Labour Leadership Elections (C1/1/10) and the General Election (BA12).

We've also taken snapshot copies of the websites of candidates in the General Election and these will be available to view in the Library's reading room.







Welsh Political Ephemera Collection

# CATALOGIO

**Yn ystod y flwyddyn, cafodd nifer o gasgliadau eu catalogio sydd bellach i'w gweld ar gatalog ar-lein y Llyfrgell.**

- Welsh Conservative Party National Assembly for Wales Group Archive (Ychwanegiad)
- Mesurau a Deddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru = National Assembly for Wales Measures and Acts (Ychwanegiad)
- Archif Cynulliad Cenedlaethol Cymru = National Assembly for Wales Archive (Ychwanegiad)
- Elfyn Llwyd Papers
- Glyn Mathias Papers
- Dot Cym Campaign Records
- Wales TUC Cymru Records (Ychwanegiad)
- George Julian Scovell (Coalition Liberal Organisation) Collection
- Ann Clwyd Papers
- Welsh Political Ephemera Collection (Ychwanegiadau)
- Lord Thomas of Gwydir Papers
- Gareth Vaughan Jones Papers (Ychwanegiad)
- Archif Plaid Cymru (Ychwanegiadau)
- Ymgyrch Senedd i Gymru (Ychwanegiad)
- Wales TUC Cymru Archives (Ychwanegiad)
- Lord German Papers
- Jonathan Edwards Papers
- Godfrey Lee Papers (Ychwanegiad)
- Lord Touhig Papers (Ychwanegiad)
- James Griffiths Papers (Ychwanegiad)

# CATALOGUING

**During the year, a number of collections were catalogued and made available on the Library's online catalogue.**


- Welsh Conservative Party National Assembly for Wales Group Archive (Addition)
- Mesurau a Deddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru = National Assembly for Wales Measures and Acts (Addition)
- Archif Cynulliad Cenedlaethol Cymru = National Assembly for Wales Archive (Addition)
- Elfyn Llwyd Papers
- Glyn Mathias Papers
- Dot Cym Campaign Records
- Wales TUC Cymru Records (Addition)
- George Julian Scovell (Coalition Liberal Organisation) Collection
- Ann Clwyd Papers
- Welsh Political Ephemera Collection (Additions)
- Lord Thomas of Gwydir Papers
- Gareth Vaughan Jones Papers (Addition)
- Archif Plaid Cymru (Additions)
- Ymgyrch Senedd i Gymru (Addition)
- Wales TUC Cymru Archives (Addition)
- Lord German Papers
- Jonathan Edwards Papers
- Godfrey Lee Papers (Addition)
- Lord Touhig Papers (Addition)
- James Griffiths Papers (Addition)




**Mesurau a Deddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru / National Assembly for Wales Measures and Acts**



**Ann Clwyd Papers**



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government
Trafnidiaeth Cymru
Transport Wales

Rt. Hon Ann Clwyd MP
House of Commons
London
SW1A OAA

Your ref:
Our ref: BZ057030-116-2
Date: 26 June 2008

Dear Sir/Madam

IMPROVING ACCESS TO CARDIFF INTERNATIONAL AIRPORT
PUBLIC CONSULTATION EXHIBITION

I refer to the Deputy First Minister's letter of 24 June informing you that arrangements have been made for public exhibitions to take place in July to consider options for improving access to Cardiff International Airport and I enclose herewith a copy of the Consultation Brochure and Questionnaire.

Yours faithfully

pp MARTIN W BATES
Project Director
Rail and New Roads Division

Welsh Assembly Government Transport Wales
Llywodraeth Cynulliad Cymru Trafnidiaeth Cymru
Improving Access to Cardiff International Airport
Public Consultation - July 2008

Home Office
HOME SECRETARY
2 Marsham Street, London SW1P 4DF
www.homeoffice.gov.uk

Rt Hon Elfyn Llwyd MP
House of Commons
London SW1A 0AA

Dear Elfyn

Thank you for your letter of 21 March, following the debate on st...
I am pleased that you were able to speak in support of the new ...

The Rt Hon Theresa May MP

**Elfyn Llwyd Papers**

SCR.0056

PRIME MINISTER

P.O. Box 1627,
Accra, Gold Coast,
British West Africa.

14th December, 1956.

Dear Griffiths,

First of all may I thank you very much indeed for your kind references to Ghana, the Government and myself in the debate. We have not unfortunately seen the full text of your speech but we have had an account of it from the Gold Coast Office in London and we are looking forward very much to seeing the Hansard.

I am writing to you now to give you some additional material which may be of value in the debate. You may remember that Sir John Hope mentioned something which he called the Commonwealth Development Finance Corporation (at least that was the way it was reported by Reuter). So far as we can discover no such body exists. There is however a semi-commercial concern, the Commonwealth Development Finance Company Limited which does do useful work on the purely commercial side. A minority of its shares are held by the Bank of England and its objects are, according to the information we received from the Colonial Office some three years ago, to increase Commonwealth resources and to strengthen the Sterling Area's balance of payments and to assist its participants and contacts in providing ready access to British industrial finance. This is quite all right so far as it goes but the help which it can give is extremely limited.

A representative came to the Gold Coast and I did have some discussions with him but the only practical matter in which we are now concerned is that the Company have been asked whether they would join us in financing a provincial match factory. The total authorised capital is only £155,000 and of this we are only ... that they will invest some £65,000. Of ... commercial profit of between 7 to 10% ...

**James Griffiths Papers**




# NEWYDDION O'R ARCHIF WLEIDYDDOL GYMREIG

# NEWS FROM THE WELSH POLITICAL ARCHIVE

## DARLITH FLYNYDDOL 2023

Traddodwyd darlith flynyddol 2023 gan yr academydd nodedig, y sylwebydd gwleidyddol a'r cyn bêl-droediwr rhyngwladol dros Gymru, yr Athro Laura McAllister ar 22 Tachwedd 2023 yn narlithfa JOMEC yng Nghaerdydd. Dyma'r ail dro yn unig i'r ddarlith gael ei chynnal y tu allan i Aberystwyth. Yn y ddarlith, *Synnwyr nid swnian: ffordd ymlaen i Gymru well,* bu Laura'n trafod pam mae Cymru'n genedl mor gyfoethog o ran talent, dychymyg ac angerdd, ond yn boenus o dlawd wrth gael ei mesur yn erbyn llawer o fetrigau sylfaenol. Bu hefyd yn edrych ar agweddau da a gwael yn ystod y 25 mlynedd diwethaf.

Gan dynnu ar ei phrofiad yn UEFA, fel academydd, cadeirydd y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad a chyd-gadeirydd y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru, ystyriodd Laura yr hyn y mae Cymru'n ei wneud yn dda, yr hyn y mae Cymru'n ei wneud yn wael, a chamau ymarferol i ddefnyddio ein talent i sicrhau gwelliant radical.

Un o'r materion allweddol oedd dadrithiad a diffyg ymddiriedaeth rhwng y bobl a'u harweinwyr. Daeth Laura i'r casgliad bod angen i ni atgyfodi ac ail-lunio'r syniad o wasanaeth cyhoeddus a dyletswydd gyhoeddus a sicrhau amrywiaeth ymhlith ein harweinwyr. Mae angen i ni chwalu myth yr arweinydd carismatig, awdurdodol a fydd yn gwneud i bethau ddigwydd, a sefyll i fyny ein hunain. Mae angen i ni beidio â bod ofn cymryd risgiau, ond mae angen i ni dderbyn y bydd anelu'n uwch yn golygu ein bod yn aml yn methu â chyrraedd yno. Mae angen i ni ddarbwyllo pobl a mygu ein hunanamheuaeth; bydd newidiadau radical fel creu miliwn o siaradwyr Cymraeg neu ddelio â'r argyfwng hinsawdd ond yn digwydd os byddwn yn gwneud newidiadau chwyldroadol a bod pobl yn credu y gallwn gyflawni hynny.

Cyhoeddwyd testun y ddarlith ar dudalennau yr Archif Wleidyddol Gymreig: https://www.llyfrgell.cymru/archifwleidyddolgymreig/darlith-flynyddol-yr-archif-wleidyddol-gymreig

## THE 2023 ANNUAL LECTURE

The 2023 annual lecture was given by distinguished academic, political commentator and former Welsh international footballer, Prof. Laura McAllister on 22 November 2023 at the JOMEC lecture theatre in Cardiff. This was only the second time that the lecture has been held outside Aberystwyth. In the lecture, entitled *Reason not rancour: a route to a better Wales,* Laura looked into why Wales is a nation so rich in talent, imagination and passion, but painfully poor when measured against many basic metrics and examined both the good and bad during the last 25 years.

Drawing on her experience at UEFA, as an academic, chair of the Expert panel on Assembly Electoral Reform and co-chair of the Independent Commission on the Constitutional Future of Wales, Laura considered what Wales does well, what Wales does badly and practical steps to use our talent to bring about radical improvement.

One of the key issues was the collapse in trust between the people and their leaders. Laura concluded that we need to resurrect and recast the idea of public service and public duty and diversify our leaders. We need to dispel the myth of the charismatic, authoritative leader who will make things happen, and stand up ourselves. We need to be less risk averse, but we need to accept that aiming higher will mean that we often fail to get there. We need to win people over and shake off the self-doubt; radical changes such as creating a million Welsh speakers or dealing with the climate emergency will only happen if we make revolutionary changes and people believe that we can do it.

The text of the lecture has been published on the pages of the Welsh Political Archive: https://www.library.wales/welshpoliticalarchive/the-welsh-political-archive-annual-lecture

## CYHOEDDIADAU A'R CYFRYNGAU

Ym mis Hydref 2023, cyhoeddwyd Maniffesto 54, sy'n manylu ar dderbynion newydd, gwaith catalogio, gweithgareddau hyrwyddo ac estyn allan ac yn cynnwys erthyglau ar brosiect Papurau Ann Clwyd, digwyddiad Llafur 100 yn 2022 ac eitem gan Syr Deian Hopkin i nodi pen blwydd yr Archif Wleidyddol Gymreig yn 40 oed.

Ysgrifennodd Rob Phillips erthygl ar gyfer Golwg 360 ym mis Gorffennaf 2023 yn dilyn marwolaeth y cyn-AS Ann Clwyd sydd wedi rhoi ei harchif sylweddol i'r Llyfrgell. https://golwg.360.cymru/newyddion/gwleidyddiaeth/2126096-llyfrgell-genedlaethol-cofio-clwyd

Roedd manylion am y gwaith ar Bapurau Ann Clwyd hefyd mewn blog gan Rob Phillips ym mis Chwefror 2024 ar wefan Cymdeithas Astudio Hanes Llafur. https://sslh.org.uk/2024/01/17/inside-the-archive-of-labour-mp-ann-clwyd/

Ysgrifennodd Rob Phillips eitem hefyd ar flog Llyfrgell Genedlaethol Cymru am y digwyddiad amser cinio yn y Senedd ym Mae Caerdydd i ymgysylltu ag Aelodau'r Senedd a'u staff ynghylch pwysigrwydd archifau gwleidyddol personol. https://www.llyfrgell.cymru/newyddion/gorffennol-a-dyfodol-senedd-cymru.

Bu Rob Phillips yn westai ar raglen Dros Ginio BBC Radio Cymru ar 27 Mehefin i drafod y casgliad o effemera gwleidyddol yng nghyd-destun ymgyrch Etholiad Cyffredinol 2024.

Mae recordiad o'r digwyddiad Ford Gron a gynhaliwyd i nodi lansiad prosiect Archif Ann Clwyd ym mis Mawrth 2023 bellach ar gael ar sianel YouTube Llyfrgell Genedlaethol Cymru. https://www.youtube.com/watch?v=kUb4mAdB8eE&t=1046s

## PUBLICATIONS AND MEDIA

Manifesto 54, detailing new acquisitions, cataloguing work, promotional and outreach activities and with articles on the Ann Clwyd Papers project, the Llafur 100 event in 2022 and an item by Sir Deian Hopkin to mark the Welsh Political Archive's 40th anniversary, was published in October 2023.

Rob Phillips wrote an article for Golwg 360 in July 2023 following the death of former MP Ann Clwyd who has donated her substantial archive to the Library. https://golwg.360.cymru/newyddion/gwleidyddiaeth/2126096-llyfrgell-genedlaethol-cofio-clwyd

Work on the Ann Clwyd Papers also featured in a blog post by Rob Phillips in February 2024 on the Society for the Study of Labour History website. https://sslh.org.uk/2024/01/17/inside-the-archive-of-labour-mp-ann-clwyd/

Rob Phillips also wrote an item on the National Library of Wales blog on the lunchtime event at the Senedd in Cardiff Bay to engage with Senedd Members and their staff on the importance of personal political archives. https://www.library.wales/news/past-and-future-of-the-welsh-parliament

Rob Phillips was a guest on BBC Radio Cymru's Dros Ginio programme on 27 June to discuss the collection of political ephemera in the context of the 2024 General Election campaign.

A recording of the Roundtable event held to mark the launch of the Ann Clwyd Archive project in March 2023 is now available on the National Library of Wales YouTube channel. https://www.youtube.com/watch?v=kUb4mAdB8eE&t=1046s



## EISTEDDFOD

Gwahoddwyd Rob Phillips i roi dwy sgwrs yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru ym Moduan ym mis Awst 2023. Ym Maes D, bu Rob yn trafod archifau gweithredu gwleidyddol radical yng ngogledd-orllewin Cymru gan gynnwys rhan Lloyd George yn Achos Claddu Llanfrothen, llosgi Ysgol Fomio'r Awyrlu ym Mhenyberth, y mudiad dirwest ac ailagor Ysgol Bryncroes yn answyddogol ar ôl iddi gael ei chau gan yr Awdurdod Addysg lleol. Bu Rob hefyd yn siarad ar stondin y Senedd ynglŷn â chofnodi hanes taith Cymru at ddatganoli yn ein casgliadau.

Rob Phillips was invited to give two talks at the National Eisteddfod of Wales in Boduan in August 2023. In Maes D Rob looked at the archives of radical political action in north-west Wales including Lloyd George's involvement in the Llanfrothen Burial Case, the burning of the RAF Bombing School at Penyberth, the temperance movement and the unofficial re-opening of Bryncroes School after it had been closed by the Local Education Authority. Rob also spoke at the Senedd stand on recording the history of Wales' journey to devolution in our collections.





**Y Pwyllgor Ymgynghorol / The Advisory Committee**

## CYFARFOD Y PWYLLGOR YMGYNGHOROL

Cyfarfu Pwyllgor Ymgynghorol yr Archif Wleidyddol Gymreig yn Nhŷ Darlledu Newydd BBC Cymru Wales yng Nghaerdydd ar 22 Tachwedd 2023, ychydig cyn y Ddarlith Flynyddol. Derbyniodd y pwyllgor adroddiad ar waith yr archif yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a'r cyfleoedd ar gyfer prosiectau yn y dyfodol. Diweddarwyd y rhestr o archifau i'w targedu. Bu'r pwyllgor hefyd yn trafod digwyddiadau posib i nodi 40 mlynedd ers Streic y Glowyr 1984-85. Yn dilyn y cyfarfod cafodd yr aelodau daith o amgylch y Tŷ Darlledu Newydd dan arweiniad Guto Thomas.

## ADVISORY COMMITTEE MEETING

The Welsh Political Archive Advisory Committee met in the BBC Cymru Wales New Broadcasting House in Cardiff on 22 November 2023, shortly before the Annual Lecture. The committee received a report on the work of the archive in the past year, opportunities for future projects and updated the list of archives to target. The committee also discussed potential events to mark the 40$^{th}$ anniversary of the 1984-85 Miners' Strike. Following the meeting members were given a tour of New Broadcasting House by Guto Thomas.



**Dathlu'r Archif Wleidyddol Gymreig yn 40 / Celebrating 40 Years of the Welsh Political Archive**

# DIGWYDDIADAU A GWEITHGAREDDAU ERAILL

Cyfrannodd yr Archif Wleidyddol Gymreig nifer o eitemau o'r casgliadau i arddangosfa fach yn y Senedd rhwng 4 Mai a 18 Gorffennaf i nodi 25 mlynedd ers etholiadau cyntaf Cynulliad Cenedlaethol Cymru, fel ag yr oedd ar y pryd.

Croesawodd y Llyfrgell ddirprwyaeth o Lysgenhadaeth Cuba fel rhan o'u taith yn ystod ymweliad ag Aberystwyth ar 8 Mawrth 2024.

Traddododd Phil Colley, gor-nai y newyddiadurwr Gareth Jones, y mae ei archifau yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, ddarlith o'r enw *The Life and Afterlife of a Welsh Hero* yn y Llyfrgell ar 22 Mai 2024. Cafodd casgliad bach o ffotograffau o archif Gareth eu harddangos yn Ystafell Summers cyn y ddarlith.

Aeth Rhys Davies â rhai eitemau o'r casgliad i'r Senedd yn Llundain ar 26 Chwefror fel rhan o ddathliadau sefydlu Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru 120 mlynedd yn ôl.

Mae'r Archif Wleidyddol Gymreig wedi cyfrannu at gasgliad newydd o wefannau Undebau Llafur. Mae'r casgliad yn cael ei gadw gan y Llyfrgell Brydeinig ac wedi ei guradu gan aelodau Pwyllgor Archifau ac Adnoddau y Gymdeithas er Astudio Hanes y Mudiad Llafur.

Rhoddodd Miidong Daloeng, swyddog y Prosiect Dadgoloneiddio Archifau, ddwy sgwrs ar bwysigrwydd amrywiaeth gan roi cipolwg ar brosiect dadgoloneiddio'r Llyfrgell. Roedd y gyntaf yn nigwyddiad Prifysgol Aberystwyth 'Screening and Sharing: Decolonial Pedagogies in Wales Higher Education' a'r llall yng nghynhadledd flynyddol CILIP Cymru lle rhannodd ei phrofiad a phwysigrwydd y prosiect gydag awgrymiadau y gellid eu hystyried wrth gychwyn ar brosiect tebyg.

Ymwelodd Rob Phillips â Phrifysgol Bangor ar 10 Mawrth 2024 i siarad â myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig am yr Archif Wleidyddol Gymreig a'r ffynonellau sydd ar gael iddynt ar gyfer eu hymchwil.

Curadodd Miidong Daloeng arddangosfa o'r enw *Golwg ar Asia* a redodd o 1 Mehefin tan ddechrau Medi 2024. Mae'n deillio o Gynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru sy'n hyrwyddo a dathlu amrywiaeth Cymru ac yn rhoi persbectif newydd ar yr adnoddau yng nghasgliadau'r Llyfrgell Genedlaethol.

Cynhaliwyd cynhadledd ar fywyd yr ymgyrchydd comiwnyddol a gwrth-hiliol, David Ivon Jones, yn Aberystwyth ar 28–29 Mehefin. Ymhlith yr uchafbwyntiau roedd dangos y rhaglen ddogfen gan Gwyn Alf Williams, *The African from Aberystwyth* yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, gyda'r cyfarwyddwr Colin Thomas yn siarad am ffilmio yn Ne Affrica yn ystod cyfnod Apartheid, ynghyd â sgrinio *London Recruits* yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth a lansiad *A Voice for Freedom Vol. 1. David Ivon Jones in Wales and South Africa* yn Canolfan Arad Goch, Aberystwyth.



**Ymweliad Llysgenhadaeth Ciwba / Visit from the Cuban Embassy**



**Dathlu pen-blwydd CAFC yn 120 / Celebrating 120 years of the RWAS**

# OTHER EVENTS AND ACTIVITIES

The Welsh Political Archive contributed a number of items from the collections to a small exhibition in the Senedd between 4 May and July 18 to mark 25 years since the first elections to the then National Assembly for Wales.

The Library welcomed a delegation from the Embassy of Cuba as part of their itinerary during a visit to Aberystwyth on 8 March 2024.

Phil Colley, great-nephew of journalist Gareth Jones, whose archive is held at the National Library of Wales, gave a lecture entitled *The Life and Afterlife of a Welsh Hero* in the Library on 22 May 2024. A small exhibition of photographs from Gareth's archive were displayed in the Summers Room before the lecture.

Rhys Davies took some items from the collection to the Houses of Parliament in London on 26 February to support the celebration of the founding of the Royal Welsh Agricultural Society 120 years ago.

The Welsh Political Archive has contributed to a new collection of Trade Union websites. The collection is held by the British Library and curated by members of the Society for the Study of Labour History Archives and Resources Committee.

Miidong Daloeng, the Archives Decolonisation Project officer, gave two talks on the importance of diversity with detailed insights on the Library decolonisation project, first at the Aberystwyth University event entitled 'Screening and Sharing: Decolonial Pedagogies in Wales Higher Education', and the other at the CILIP Cymru annual conference where she shared her experience and the importance of the project with tips and measures that could be considered when embarking on a similar project.

Rob Phillips visited Bangor University on 10 March 2024 to speak to undergraduate and postgraduate students on the Welsh Political Archive and sources available to them for their research.

Miidong Daloeng curated an exhibition entitled *Asia Through The Lens* which ran from 1 June until the beginning of September 2024. It stems from the Wales Anti-Racist Action Plan that promotes and celebrates the diversity of Wales and gives a new perspective on the resources in the National Library's collections.

A conference on the life of the communist and anti-racial segregation campaigner David Ivon Jones was held in Aberystwyth on 28–29 June. Highlights included showing the documentary by Gwyn Alf Williams, *The African from Aberystwyth* at the National Library of Wales with director Colin Thomas speaking on filming in Apartheid-era South Africa alongside a screening of *London Recruits* at the Aberystwyth Arts Centre and the launch of *A Voice for Freedom Vol. 1: David Ivon Jones in Wales and South Africa* at Canolfan Arad Goch, Aberystwyth.

# GOLWG AR EIN CASGLIADAU

# SPOTLIGHT ON OUR COLLECTIONS

## DEISEB HEDDWCH MENYWOD CYMRU 1923

### gan Oscar Seager

Flwyddyn ar ôl i'r gist ddychwelyd i'w chartref yng Nghymru, yn cynnwys llofnodion bron i 400,000 o fenywod o Gymru a oedd yn ymgyrchu dros heddwch, mae'r ymdrechion i gatalogio a digideiddio casgliad Deiseb Heddwch Menywod Cymru 1923 wedi'u cwblhau. Er i'm gwaith o archifo'r casgliad ddod i ben ym mis Mawrth 2024, rwy'n dal i gymryd rhan weithredol yng nghamau nesaf y prosiect. Sef, sut i wneud y casgliad yn fwy hygyrch i'r cyhoedd yn gyffredinol.


Er bod cynnwys y Ddeiseb yn gwbl hygyrch yn ddigidol a bod modd gwneud cais am y cynnwys drwy ein system gatalogio, AtoM, mae'r broses ar gyfer dod o hyd i lofnodion penodol yn parhau i fod yn broses sy'n cymryd llawer o amser. Ers dechrau'r flwyddyn, mae'r dasg aruthrol o drawsgrifio'r holl enwau a chyfeiriadau ar ddogfennau'r ddeiseb trwy brosiect torfoli wedi cychwyn. Bydd y data a ddarperir yn cael ei gyflwyno drwy wefan y Llyfrgell yn ddiweddarach eleni a byddwn yn ychwanegu'n barhaus ato wrth i fwy o'r casgliad gael ei drawsgrifio. Bydd defnyddwyr yn gallu chwilio am lofnodion yn ôl enw, cyfeiriad (gan gynnwys cyfeiriad stryd, ward gymunedol a sir) neu drwy fap rhyngweithiol, a fydd yn dangos nifer y llofnodion a ddarparwyd gan bob sir i ddefnyddwyr.

Bydd canlyniadau chwilio'n cael eu harddangos i ddefnyddwyr trwy gyfrwng cip o'r ddogfen wreiddiol gyda'r cofnod wedi'i drawsgrifio uwchlaw yn ogystal â gwybodaeth am y bocs a'r ddeiseb y daw'r llofnod ohonynt, pe bai defnyddwyr eisiau edrych ar y ddogfen wreiddiol.

Ar ôl ei rhyddhau, bydd y wefan yn offeryn defnyddiol i ddefnyddwyr sy'n dymuno cynnal ymchwil hanes teuluol y tu hwnt i gyfrifiad 1921. Yn ogystal, efallai mai dyma'r tro cyntaf erioed i lawer weld llofnod eu perthynas ar ddogfen. Rwyf wedi cael y pleser o helpu pobl yn bersonol (defnyddwyr a staff) i ddod o hyd i'w teulu ar y ddeiseb ac mae eu hymateb calonnog bob amser wedi ategu pa mor bwysig yw galluogi mynediad i gasgliad o'r fath ac wedi fy ysbrydoli'n gyson yn ystod y broses gatalogio. Bydd y wefan hon yn galluogi llawer o bobl eraill i gael profiad tebyg.

Rwy'n hynod ddiolchgar fy mod wedi cael y cyfle i fod yn rhan o'r prosiect hwn. Y Ddeiseb Heddwch oedd y cyfle cyntaf a gefais i gatalogio casgliad archifol yn dilyn fy astudiaethau yn y brifysgol ac mae wedi bod yn brofiad cyffrous. Nid yn unig o ran chwarae rhan wrth ddatgelu hanes cudd yr ymgyrch hon dros heddwch ond hefyd wrth ymgysylltu â phobl am bwysigrwydd y casgliad hwn o safbwynt hanes menywod, Cymru a mudiadau heddwch yn y cyfnod rhwng y rhyfeloedd.

*Oscar Seager yw'r archifydd a fu'n gyfrifol am gatalogio a pharatoi Deiseb Heddwch Menywod Cymru ar gyfer ei digido. Mae wedi rhoi nifer o sgyrsiau ac wedi ysgrifennu erthyglau i hyrwyddo'r prosiect. Ar hyn o bryd mae'n Uwch Gynorthwyydd Gwasanaeth yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru.*




Gwefan Deiseb Heddwch Menywod Cymru /
Welsh Women's Peace Petition webiste


## 1923 WELSH WOMEN'S PEACE PETITION

### by Oscar Seager

A year following the return of the chest to its home in Wales, containing the signatures of nearly 400,000 Welsh women campaigning for peace, the efforts to catalogue and digitise the 1923 Welsh Women's Peace Petition collection have since been completed. Although my role in archiving the collection concluded in March 2024, I am still actively involved in the next steps of the project. Namely in how the collection will be made more easily accessible to the wider public.

While the Petition's contents are fully accessible digitally and available to request through our cataloguing system, AtoM, the process for finding specific signatures continues to be time-consuming. Since the beginning of the year, the monumental task of transcribing all the names and addresses on the petition documents via a crowdsourcing project has commenced. The data provided will be presented via the Library's website later this year and continuously added to as more of the collection is transcribed. Users will have the ability to search signatures by name, address (including street address, community ward and county) or via an interactive map, which will show users the number of signatures provided from each county.

Search results will be displayed to users through a snippet of the original document with the transcribed entry above in addition to information on the box and petition the signature has been provided from, should users ever want to consult the original document.


1923.

Yr Apêl

Oddiwrth Ferched Cymru a Mynwy at Ferched Unol Daleithiau'r America.

| ENW. | CYFEIRIAD. |
|---|---|

Tudalen Deiseb Heddwch o ardal Llanfyllin /
Page from the Peace Petition from the Llanfyllin area

Once released, the website will act as a useful tool for users who wish to further their family history research beyond the 1921 census. Additionally, this may be the first time many have ever seen their relative's signature on a document. I've had the pleasure of personally helping people (both users and staff) find their family on the petition and their heartwarming reactions have always reaffirmed the importance of enabling access to such a collection and constantly inspired me during the cataloguing process. This website will enable many others to have a similar experience.

I feel incredibly grateful to have had the opportunity to have been a part of this project. The Peace Petition was the first chance I had to catalogue an archival collection following my studies at university and it's been an exciting experience. Not only in playing a part in uncovering the hidden history of this campaign for peace but also in engaging with people on the importance of this collection for the history of women, Wales and peace movements in the interwar period.

*Oscar Seager is the archivist who was responsible for cataloguing and preparing the Welsh Women's Peace Petition for digitisation and has given numerous talks and written articles to promote the project. He is currently a Senior Service Assistant at the National Library of Wales.*

## 60 MLYNEDD O YSGRIFENNYDD GWLADOL CYMRU

Daeth swydd Ysgrifennydd Gwladol Cymru i fodolaeth ar 17 Hydref 1964 ac ar hyn o bryd mae gan yr Archif Wleidyddol Gymreig bapurau naw cyn-ysgrifennydd, gan gynnwys y chwech cyntaf: James Griffiths (1964–1966), Cledwyn Hughes (1966–1968), George Thomas (1968–1970), Peter Thomas (1970–1974), John Morris (1974–1979) a Nicholas Edwards (1979–1987). Y tri arall y mae eu papurau ar gael yn y Llyfrgell yw Ron Davies (1997–1998), Paul Murphy (1999–2002 a 2008–2009) a Peter Hain (2002–2008 a 2009–2010).

Yr ychwanegiad diweddaraf i'r grŵp hwn yw mwy o bapurau yr Arglwydd Thomas o Wydir a roddwyd i'r Archif ym mis Medi 2023. Mae'r papurau hyn wedi'u catalogio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Maent yn cynnwys tri ffotograff a dynnwyd yn ôl pob tebyg yn Nhŷ Gwydyr o'r pum Ysgrifennydd Cymreig cyntaf, a dynnwyd rywbryd rhwng penodi John Morris yn Ysgrifennydd Gwladol ar 5 Mawrth 1974 a marwolaeth Jim Griffiths ar 7 Awst 1975. Mae'r llun hwn yn fwy anffurfiol ei natur o'i gymharu â'r portread grŵp mwy ffurfiol arall sy'n portreadu'r pump cyntaf i ddal y swydd a grëwyd 60 mlynedd yn ôl.

## 60 YEARS OF THE SECRETARY OF STATE FOR WALES

The post of Secretary of State for Wales came into existence on 17 October 1964 and The Welsh Political Archive currently holds papers of nine former secretaries, including the first six incumbents: James Griffiths (1964–1966), Cledwyn Hughes (1966–1968), George Thomas (1968–1970), Peter Thomas (1970–1974), John Morris (1974–1979) and Nicholas Edwards (1979–1987). The other three post-holders with their papers housed at the Library are Ron Davies (1997–1998), Paul Murphy (1999–2002 and 2008–2009) and Peter Hain (2002–2008 and 2009–2010).

The most recent addition to this group was a donation of further papers of Lord Thomas of Gwydir made in September 2023, and which has been catalogued during the past year. It includes three photographs presumably taken at Gwydyr House of the first five Welsh Secretaries, taken sometime between the appointment of John Morris as Secretary of State on 5 March 1974 and the death of Jim Griffiths on 7 August 1975. This photograph portrays an informal setting in comparison to the other more formal group portrait that documents the first five to hold the office that was created 60 years ago.





## EIN TAITH TUAG AT GYMRU WRTH-HILIOL

**Gan Miidong Daloeng**

Am ganrifoedd, cafodd archifau eu sefydlu a'u rheoli gan deuluoedd cyfoethog neu gyrff cadw cofnodion swyddogol. O ganlyniad, roedd y rhan fwyaf o gasgliadau archifol yn canolbwyntio'n bennaf ar eu perchnogion, sef dynion gwyn, cefnog neu ddosbarth canol ar y cyfan. Mae hyn yn golygu nad yw poblogaeth amrywiol Cymru wedi'i chynrychioli'n ddigonol.

Fodd bynnag, wrth i'r Ymerodraeth Brydeinig ehangu, ac yn sgil twf a datblygiad newyddiaduraeth, teithio, cyfeillgarwch, ymgyrchoedd a gweithredu, mae casgliadau sy'n cynrychioli diwylliannau a phobloedd amrywiol wedi dod yn rhan annatod o'n harchifau. Dangosir hyn drwy gasgliadau fel Peter Hain Papers, Gareth Vaughan Jones Papers, the Wales Anti-Apartheid Movement Archive, Ena Niedergang (Wales-China) Papers, bwndeli llawysgrifau Syr Davies Leonard Triston yn Farsi, Sansgrit, ac Arabeg, Robert Clive Collection, Benjamin Millingchamp Collection, a llawysgrifau amrywiol o bob cwr o'r byd. Yn fwy diweddar, mae eitemau o wahanol gymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol wedi'u cynnwys a gweithiau celf wedi'u comisiynu i sicrhau mwy o amrywiaeth, ac i ddadgoloneiddio ein casgliadau ymhellach.


Fel rhan o ymdrechion dadgoloneiddio'r Llyfrgell, curadwyd dwy arddangosfa: ***Myfyrdod - Arddangosfa Mis Hanes Pobl Ddu*** a ***Golwg ar Asia*** yn fwyaf diweddar. Curadwyd yr arddangosfeydd hyn i wella gwelededd ein casgliadau amrywiol, annog ymchwil, a rhannu straeon a allai fod heb eu clywed o'r blaen. Dyluniwyd y rhan fwyaf o'r arddangosfeydd hyn i gysylltu pobl a sbarduno sgyrsiau dylanwadol ar hil, ymerodraeth a hunaniaeth wrth i ni ymdrechu at sicrhau Cymru sy'n rhydd o hiliaeth erbyn 2030.

*Miidong Daloeng yw'r Swyddog Dadgoloneiddio Archifau a dechreuodd weithio ar brosiect dwy flynedd yn y Llyfrgell ym mis Ionawr 2023. Mae ganddi radd ôl-raddedig mewn Rheoli Gwybodaeth Ddigidol a'r Cyfryngau (Archifau) o Brifysgol Aberystwyth ac mae ganddi dros bum mlynedd o brofiad yn gweithio mewn sefydliadau dysgu, ymchwil a chyllid.*

## OUR JOURNEY TOWARDS AN ANTI-RACIST WALES

**By Miidong Daloeng**

For centuries, archives were established and governed by wealthy families or official record-keeping bodies. As a result, most archival collections primarily focused on their owners, who were predominantly male, white, affluent, or middle-class. This has led to an underrepresentation of the diverse population of Wales.



However, with the expansion of the British Empire, growth and development of journalism, travel, friendship, campaigns and activism, collections representing diverse cultures and peoples have become an integral part of our archives. This is exemplified by collections such as the Peter Hain Papers, Gareth Vaughan Jones Papers, the Wales Anti-Apartheid Movement Archive, Ena Niedergang (Wales-China) Papers, Sir Davies Leonard Triston's bundles of manuscripts in Farsi, Sanskrit, and Arabic, Robert Clive Collection, Benjamin Millingchamp Collection, and various manuscripts from around the world. More recently, items from various underrepresented communities have been included and artworks commissioned to further diversify and decolonise our collections.

As part of the Library's decolonisation efforts, two exhibitions have been curated: ***Reflection - Black History Month Exhibition*** and the most recent ***Asia Through Lenses***. These exhibitions were curated to enhance the visibility of our diverse collections, encourage research, and share stories that may have previously gone unheard. Most, these exhibitions were designed at connect people and spark impactful conversations on race, empire, and identity as we strive towards a Wales free of racism by 2030.

*Miidong Daloeng is the Archives Decolonisation Officer and began work on a 2 year project at the Library in January 2023. She has a postgraduate degree in Digital Information and Media Management (Archives) from Aberystwyth University and has over five years' experience working in institutes of learning, research and finance.*

# SUT MAE DEDDF SENEDD YN DOD YN GYFRAITH?

**Gan Huw Williams a Rob Phillips**

Y cam olaf yn y broses o greu cyfraith newydd yn Neddfau Senedd San Steffan yw arwyddo cydsyniad y brenin yn Senedd y Deyrnas Unedig.

Yn y canol oesoedd arwyddai brenhinoedd eu caniatâd yn bersonol ond cafodd Deddf Atentiad y Frenhines Katherine Howard, a oedd yn rhifo troseddau honedig cyn-wraig y Brenin erbyn hynny, gydsyniad gan y Comisiynwyr Brenhinol, gan y barnwyd ei bod yn rhy boenus i'r Brenin gydsynio ei hun.

Dros y canrifoedd daeth arwyddo cydsyniad gan y Comisiynwyr Brenhinol ar ran y Brenin yn ddull arferol o arwyddo cydsyniad a'r frenhines olaf i gydsynio i Fesur San Steffan yn bersonol oedd y Frenhines Fictoria yn 1854.

Cafodd y weithdrefn ar gyfer rhoi Cydsyniad Brenhinol drwy Gomisiwn ei symleiddio gan Ddeddf Cydsyniad Brenhinol 1967. Mae'r weithdrefn amgen hon yn golygu bod y brenin/brenhines yn llofnodi Breinlythyrau; datganiadau neu gyfarwyddiadau cyhoeddus ac agored gan y brenin/brenhines - wedi hynny bydd Senedd y Deyrnas Unedig yn cael ei hysbysu am Gydsyniad Brenhinol a datganiad byr yn cael ei wneud i Dŷ'r Cyffredin gan y Llefarydd, ac yn Nhŷ'r Arglwyddi gan yr Arglwydd Lefarydd. Bellach, dim ond pan fydd Senedd y Deyrnas Unedig yn cael ei haddoedi, cyn etholiad cyffredinol, y mae arwyddo Cydsyniad Brenhinol gan y Comisiwn, ynghyd â'r seremonïau cysylltiedig, yn digwydd.

Y weithdrefn symlach o dan Ddeddf 1967 yw'r model ar gyfer dynodi Cydsyniad Brenhinol i Ddeddfau Senedd Cymru. Unwaith y bydd Bil wedi cwblhau ei holl gamau gerbron y Senedd, mae'n barod i'w gyflwyno ar gyfer Cydsyniad Brenhinol, ar yr amod:

- nad yw wedi'i gyfeirio at y Goruchaf Lys gan naill ai Gwnsler Cyffredinol Cymru neu Dwrnai Cyffredinol Cymru a Lloegr ar y sail ei fod yn codi cwestiynau am gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, neu fod ei ddarpariaethau'n ymwneud â phwnc na all y Senedd ei ddiwygio; neu
- nad yw'r Ysgrifennydd Gwladol wedi gwneud gorchymyn yn atal y Bil rhag cael ei gyflwyno ar gyfer Cydsyniad Brenhinol ar y sail y byddai'n effeithio'n andwyol ar weithrediad y gyfraith fel y mae'n gymwys yn Lloegr neu y byddai'n anghydnaws â rhwymedigaethau rhyngwladol neu fuddiannau amddiffyn neu ddiogelwch cenedlaethol. Hyd yn hyn, ni ddefnyddiwyd y pŵer hwn erioed.

Unwaith y gellir cyflwyno Bil i gael Cydsyniad Brenhinol, yna Llywydd y Senedd sy'n gyfrifol am wneud hynny. Gwneir hyn drwy anfon Breinlythyrau, a baratowyd ar gyfer y Llywydd gan Lywodraeth Cymru, i'r Aelwyd Frenhinol.

Mae'r Llythyrau mewn iaith ffurfiol ac wedi'u 'harwyddo â llaw Ei Fawrhydi ei hun yn dynodi Ei Gydsyniad'. Fe'u cyfeirir at Geidwad y Sêl Gymreig (swydd ar wahân a ddelir gan Brif Weinidog Cymru) a gyfarwyddir i osod y Sêl Gymreig ar y Llythyrau. Yna dychwelir y Llythyrau wedi eu harwyddo i Lywodraeth Cymru a gosodir y sêl gan Geidwad y Sêl Gymreig trwy wneud argraff o'r sêl ar y Llythyrau, ac mae arwyddo'r Llythyrau gan y Brenin hefyd yn cael ei gwblhau.



**Ceidwad y Sêl Gymreig yn gwneud argraff o'r sêl ar y Breinlythyrau / The Keeper of the Welsh Seal embossing the seal on Letters Patent**



# HOW DOES AN ACT OF THE SENEDD BECOME LAW?

**By Huw Williams and Rob Phillips**

The signifying of the monarch's consent to Acts of the Westminster Parliament is the final stage in the creation of new law by the King in Parliament.

In mediaeval times monarchs signified their consent in person but the Act Of Attainder of Queen Katherine Howard, which enumerated the alleged crimes of his by then ex-wife, was given consent by Royal Commissioners as it was deemed too painful for the King to assent in person.

Over the centuries the signifying of consent by Royal Commissioners on behalf of the King became the normal method of signifying assent and the last monarch to give assent to a Westminster Bill in person was Queen Victoria in 1854.

The procedure to give Royal Assent by Commissions was simplified by the Royal Assent Act 1967. This alternative procedure involves the monarch signing Letters Patent; public and open declarations or instructions by the monarch - following which Royal Assent is notified to Parliament and a brief statement is made to the House of Commons by the Speaker, and in the House of Lords by the Lord Speaker. The signifying of Royal Assent by Commission, with the accompanying ceremonials, now generally only takes place when Parliament is prorogued, prior to a general election.

The simplified procedure under the 1967 Act is the model for signifying Royal Assent to Acts of the Senedd. Once a Bill has completed all its stages before the Senedd, it is ready to be presented for Royal Assent, provided:

- it has not been referred to the Supreme Court by either the Counsel General for Wales or the Attorney-General for England and Wales on the grounds that it raises questions about the legislative competence of the Senedd, or its provisions relate to subject matter that the Senedd cannot amend; or
- or that the Secretary of State has not made an order preventing the Bill being submitted for Royal Assent on the grounds that it would adversely affect the operation of the law as it applies in England or would be incompatible with international obligations or the interests of defence or national security. To date, this power has never been used.

Once a Bill can be submitted for Royal Assent the duty of doing so falls to the Llywydd (the Presiding Officer of the Senedd). This is done by sending Letters Patent, prepared for the Llywydd by the Welsh Government, to the Royal Household.

The Letters are in formal language and are 'signed with His Majesty's own hand signifying His Assent'. They are addressed to the Keeper of the Welsh Seal (which is a separate office held by the First Minister of Wales) who is instructed to affix the Welsh Seal to the Letters. The signed Letters are then returned to the Welsh Government and the seal is affixed by the Keeper of the Welsh Seal by making an impression of the seal on the Letters, and the signing of the Letters by the King is also completed.


Rhwng 2006 a 2011 pan oedd pwerau'r Cynulliad Cenedlaethol i basio deddfwriaeth sylfaenol, a elwid yn Fesurau, yn gyfyngedig ar y pryd, câi 'Cymeradwyaeth Frenhinol' ei nodi mewn cyfarfod o'r Cyfrin Gyngor. Fodd bynnag, pan gafodd y Cynulliad Cenedlaethol rym i basio ei Ddeddfau ei hun, daeth Sêl Gymreig yn angenrheidiol. Yn wahanol i seliau Lloegr a'r Alban, a oedd yn hanesyddol yn ddwyochrog ac yn hongian â rhuban o'r ddogfen, mae'r Sêl Gymreig yn un ochr ac wedi'i dylunio i'w defnyddio gyda sticer sêl goch bapur yn unol â'r arfer modern. Mae tair elfen i'r Sêl Gymreig, a ddyluniwyd ac a wnaed gan y Bathdy Brenhinol yn Llantrisant, sef delw o'r Frenhines Elizabeth II, Bathodyn Brenhinol Cymru (a gymeradwywyd yn 2008 ac a ddefnyddiwyd ar ddeddfwriaeth y Senedd) a'r Ddraig Goch. Bydd y sêl hon yn cael ei disodli maes o law gyda sêl newydd yn dwyn delw'r Brenin.

Unwaith y bydd y Breinlythyrau wedi'u selio, cânt eu gwneud yn hysbys gan Geidwad y Sêl Gymreig i Glerc y Senedd. Ar y pwynt hwn y daw'r Ddeddf yn gyfraith.

Y Ddeddf gyntaf i gael Cydsyniad Brenhinol oedd Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) 2012 (2012 dc 1).

Ar ôl cael ei hysbysu am y Breinlythyrau, mae Clerc y Senedd yn arysgrifio manylion y Cydsyniad Brenhinol a rhif y Ddeddf at ddibenion dyfynnu ar gopi printiedig a rhwymedig o'r Ddeddf. Daw'r manylion hyn yn rhan o'r Ddeddf a daw'r fersiwn hon yn 'brint swyddogol' o'r Ddeddf. Mae'r Clerc hefyd yn gwneud ac yn ardystio copi o'r print swyddogol, a anfonir at Argraffydd y Brenin ac a fydd yn ymddangos mewn fersiynau cyhoeddedig o'r Ddeddf, er enghraifft ar Legislation.gov.uk. Y camau olaf yn y weithdrefn yw gosod hysbysiadau cyhoeddus o'r Cydsyniad Brenhinol yng nghyhoeddiadau *The Gazette* Llundain, Caeredin a Belfast.


Yna rhaid i'r Clerc anfon y print swyddogol at Lyfrgell Genedlaethol Cymru, sef ystorfa barhaol swyddogol deddfwriaeth y Senedd. Anfonir y Breinlythyrau hefyd i'r Llyfrgell Genedlaethol gan swyddogion y Senedd ar ran Ceidwad y Sêl Gymreig.



**Mae'r Deddfau yn cael eu catalogio yn y Llyfrgell Genedlaethol / The Acts are catalogued at the National Library**

Wrth gyrraedd y Llyfrgell Genedlaethol ychwanegir y printiau swyddogol at y catalog ar-lein. Rhoddir y printiau unigol mewn ffolderi archifol, eu labelu a'u rhoi mewn blychau archifol cyn eu trosglwyddo i'w storio'n barhaol mewn celloedd sy'n cydymffurfio â BS 4971 ar gyfer storio deunyddiau archifol. Yna gall aelodau'r cyhoedd gael mynediad i'r printiau swyddogol yn ystafell ddarllen y Llyfrgell drwy wneud cais drwy'r catalog.

*Huw Williams yw Prif Gynghorydd Cyfreithiol y Senedd a Rob Phillips yw Archifydd yr Archif Wleidyddol Gymreig. Mae'r awduron yn cydnabod cymorth Briff Ymchwil Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin 'Royal Assent' gan David Torrance (28 Chwefror 2024) am y cefndir hanesyddol i ddeddfwriaeth Cydsyniad Brenhinol.*



**Clerc y Senedd yn arwyddo argraffiad swyddogol y Ddeddf / Clerk of the Senedd inscribes the offical print of the Act**

Between 2006 and 2011 when the then National Assembly had limited powers to pass primary legislation, known as Measures, 'Royal Approval' was signified at a meeting of the Privy Council. However, when the National Assembly was empowered to pass its own Acts, a Welsh Seal became necessary. Unlike the English and Scottish seals, which historically were double sided and suspended by ribbon from the document, the Welsh Seal is single sided and designed for use with a red paper wafer in accordance with modern practice. The Welsh Seal, designed and made by the Royal Mint in Llantrisant, has three elements: an effigy of Queen Elizabeth II, the Royal Badge of Wales (approved in 2008 and used on Senedd legislation) and 'Y Ddraig Goch'. This seal will be replaced in due course with a new seal bearing the effigy of the King.

Once the Letters Patent have been sealed they are notified by the Keeper of the Welsh Seal to the Clerk of the Senedd. It is at this point that the Act becomes law.

The first Act to receive Royal Assent was the National Assembly for Wales (Official Languages) Act 2012 (2012 anaw 1).

The Clerk of the Senedd on receiving notification of the Letters Patent, inscribes the details of Royal Assent and the number of the Act for citation purposes on a printed and bound copy of the Act. These details become part of the Act and this version then becomes the 'official print' of the Act. The Clerk also makes and certifies a copy of the official print, which is sent to the King's Printer and will appear in published versions of the Act, for example on Legislation.gov.uk. The final steps in the procedure are the placing of public notices of Royal Assent in the London, Edinburgh and Belfast *Gazettes*.

The official print must then be sent by the Clerk to the National Library of Wales, which is the official permanent repository of Senedd legislation. The Letters Patent are also sent to the National Library by Senedd officials on behalf of the Keeper of the Welsh Seal.

On arrival at the National Library the official prints are added to the online catalogue. The individual prints are placed into archival folders, labelled and put into archival boxes before being transferred for permanent storage in cells which conform to BS 4971 for storage of archival materials. The official prints can then be accessed by members of the public in the Library's reading room by making a request through the catalogue.

*Huw Williams is the Chief Legal Adviser to the Senedd and Rob Phillips is the Archivist for the Welsh Political Archive. The authors acknowledge the assistance of the House of Commons Library Research Briefing 'Royal Assent' by David Torrance (28 February 2024) for the historical background to Royal Assent to legislation.*

# NEWYDDION O LYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
# NEWS FROM THE NATIONAL LIBRARY OF WALES



**Dr Rhodri Llwyd Morgan**

## PENODI DR RHODRI LLWYD MORGAN YN BRIF WEITHREDWR

Dechreuodd Dr Rhodri Llwyd Morgan, a oedd gynt yn Gyfarwyddwr y Gymraeg, Diwylliant Cymru a Chysylltiadau Allanol ym Mhrifysgol Aberystwyth, ei rôl fel Prif Weithredwr Llyfrgell Genedlaethol Cymru ym mis Ebrill 2024. Yn ei swydd flaenorol roedd yn gyfrifol am brosiect Bywyd Newydd i'r Hen Goleg ar ran Prifysgol Aberystwyth sydd ar waith ar hyn o bryd ac a fydd yn newid yr adeilad rhestredig Gradd 1 yn ganolfan ddiwylliannol a chreadigol. Roedd hefyd yn Gadeirydd Bwrdd Cyfarwyddwyr Mudiad Meithrin am chwe blynedd ac yn aelod o Gyngor Partneriaeth y Gymraeg (Llywodraeth Cymru) am ddeng mlynedd. Addysgwyd Rhodri yn ne sir Ceredigion, ac enillodd radd mewn Hanes a Hanes Cymru ym Mhrifysgol Aberystwyth ynghyd â Diploma mewn Llyfrgellyddiaeth, cyn cwblhau Gradd Meistr a Doethuriaeth ym Mhrifysgol Caerdydd.

## DR RHODRI LLWYD MORGAN APPOINTED AS CHIEF EXECUTIVE

Dr Rhodri Llwyd Morgan, who was previously Director of Welsh Language, Welsh Culture and External Relations at Aberystwyth University, took up his role as Chief Executive of the National Library of Wales in April 2024. In his former post he was responsible for the New Life for the Old College project on behalf of Aberystwyth University which is currently underway and will transform the Grade 1 listed building into a cultural and creative centre. He was also Chairman of the Board of Directors of Mudiad Meithrin for six years and a member of the Welsh Language Partnership Council (Welsh Government) for ten years. Rhodri was educated in south Ceredigion, and gained a degree in History and Welsh History at Aberystwyth University along with a Diploma in Librarianship, before completing a Master's Degree and Doctorate at Cardiff University.



# FROM 'A TOLERANT NATION?' TO AN 'ANTI-RACIST NATION?' THE POLITICS OF RACE EQUALITY IN WALES

### Darlith Flynyddol yr Archif Wleidyddol Gymreig 2024

Yr Athro Charlotte Williams OBE FLSW

18.10.2024, 5.30pm

Mae eleni'n nodi 25 mlynedd ers y setliad datganoli lle gosodwyd cydraddoldeb hil yn ddyhead cyfansoddiadol.

Yn y ddarlith hon mae'r Athro Charlotte Williams yn ystyried ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gydraddoldeb hil yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol.

Mae'n awgrymu bod cyfnod datganoli yn rhannu i dri chyfnod gwahanol, pob un wedi'i seilio ar ragdybiaethau a dulliau gwahanol o ystyried newid; ond a yw llywodraethau yn gallu llywio a chynnal cyfiawnder hiliol?

Bydd yr Athro Williams hefyd yn lansio ei chyfrol newydd, a gyd-olygwyd gyda'i chydweithiwr Neil Evans, *Globalising Welsh Studies, decolonising history, heritage, society and culture* (Gwasg Prifysgol Cymru, 2024).

https://www.uwp.co.uk/book/globalising-welsh-studies/

**Digwyddiad trwy gyfrwng y Saesneg.**

Drwm, Llyfrgell Genedlaethol Cymru

www.llyfrgell.cymru/digwyddiadau

@LLGCymru

---

### The Welsh Political Archive Annual Lecture 2024

Professor Charlotte Williams OBE FLSW

This year marks 25 years of the devolutionary settlement in which race equality was set as a constitutional aspiration.

In this lecture Professor Charlotte Williams offers a view of the past, present and future commitment of the Welsh Government in respect of race equality.

She suggests the devolutionary period is marked by three distinct eras, each underpinned by assumptions and approaches to change; but can governments steer and sustain racial justice?

Professor Williams will also launch her new book, co-edited with her colleague Neil Evans, *Globalising Welsh Studies, decolonising history, heritage, society and culture* (University of Wales Press, 2024).

https://www.uwp.co.uk/book/globalising-welsh-studies/

**An English language event.**

Drwm, The National Library of Wales

www.library.wales/events

@NLWales



## YSTAFELL DDARLLEN Y GOGLEDD

Ceir mynediad i'r cyfoeth yma o adnoddau yn Ystafell Ddarllen y Gogledd drwy gofrestru am docyn darllen ac mae ein staff cyfeillgar a phrofiadol yma i gynnig arweiniad a chyngor i chi.

**Mae'r Ystafell Ddarllen ar agor drwy gydoly flwyddyn:**

- Llun i Gwener 9.30am – 6.00pm
- 4.15pm yw'r amser olaf ar gyfer archebu deunydd i'w weld ar yr un diwrnod.
- Sadwrn 9.30am – 5.00pm

Gwasanaeth cyfyngedig sydd ar Ddydd Sadwrn ac nid oes modd archebu deunydd ar y dydd i'w ddarllen. Archebwch ddeunydd erbyn 4.00pm ar y dydd Iau flaenorol i'w weld ar y dydd Sadwrn neu gallwch weld deunydd sydd wedi'i roi ar gadw ganddoch.

**Gwybodaeth bellach:**
www.llyfrgell.cymru/darllen
www.llyfrgell.cymru/oriauagor

## GWASANAETH YMHOLIADAU

Mae modd hefyd cael atebion i gwestiynau penodol am ein casgliadau neu ein gwasanaethau trwy gysylltu a'n gwasanaeth ymholiadau.

**Mae sawl ffordd o gysylltu:**

- **Cwblhau'r ffurflen ymholiadau ar-lein:** www.llyfrgell.cymru/gwasanaethau/ymholiadau/ymholiadau-llgc/ffurflenymholiadau/
- **Ebostio:** gofyn@llyfrgell.cymru
- **Ffonio:** +44 (0)1970 632 933 (9.30-17.00)
- **Gyrru ffacs:** +44 (0)1970 632 551
- **Ysgrifennu at:** Y Gwasanaeth Ymholiadau, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3BU
- **Gwybodaeth bellach:** www.llyfrgell.cymru/ymholiadau

## THE NORTH READING ROOM

Access to the rich resources available in the North Reading Room can be gained by registering for a reader's ticket and our friendly and experienced staff are here to guide and advise you.

**The Reading Room is open throughout the year:**

- Monday to Friday 9.30am – 6.00pm
- 4.15pm is the latest time you can order items to view on the same day.
- Saturday 9.30am – 5.00pm

There is a restricted service on a Saturday and it is not possible to order items on the day to view. Order items before 4.00pm on the preceding Thursday to view on a Saturday or view items already on reserve.

**Further information:**
www.library.wales/reading
www.library.wales/openingtimes

## ENQUIRY SERVICE

You can also get answers to specific questions regarding our collections and services by contacting our enquiries service.

**There are several ways to contact us:**

- **Complete the online enquiry form:** www.library.wales/services/enquiries/nlw-enquiries/enquiries-form/
- **Email:** enquiry@library.wales
- **Telephone:** +44 (0)1970 632 933 (9.30-17.00)
- **Fax:** +44 (0)1970 632 551
- **Write to:** The Enquiries Service, The National Library of Wales, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3BU
- **Further information** www.library.wales/enquiries



# LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU

# THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3BU

t: 01970 632 800
f: 01970 615 709
post@llyfrgell.cymru

Oriau Agor Cyffredinol/
General Opening Hours

Dydd Llun – Dydd Gwener/
Monday – Friday
9:00am – 6:00pm

Dydd Sadwrn/Saturday
9:30am – 5:00pm

# YR ARCHIF WLEIDYDDOL GYMREIG

# THE WELSH POLITICAL ARCHIVE

Cyhoeddir Cylchlythyr yr Archif Wleidyddol Gymreig unwaith y flwyddyn i dynnu sylw at gasgliadau newydd a gwaith yr archif ac mae'n cael ei ddosbarthu i newyddiadurwyr, haneswyr, academyddion, gwleidyddion ac eraill sydd â diddordeb yn hanes a gwleidyddiaeth Cymru. Os hoffech dderbyn copi, rhowch wybod i ni drwy'r manylion cyswllt uchod.

Mae ôl-rifynnau o'r cylchlythyr ar gael ar dudalennau'r Archif Wleidyddol Gymreig ar wefan Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

www.llyfrgell.cymru/archifwleidyddolgymreig

@LLGCymru

Fersiwn Print ISSN 2977-2540
Fersiwn Digidol ISSN 2977-2559

The Welsh Political Archive Newsletter is produced annually to highlight new collections and the work of the archive and is circulated to journalists, historians, academics, politicians and others who are interested in the history and politics of Wales. If you would like to receive a copy, please let us know using the contact details above.

Back issues of the newsletter are available on the Welsh Political Archive pages of the National Library of Wales website.

www.library.wales/welshpoliticalarchive

@NLWales

Print Version ISSN 2977-2540
Digital Version  ISSN 2977-2559

LLGC NLW
LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES
Archif Wleidyddol Gymreig
Welsh Political Archive

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government